


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Locum Hub Wales

Rydym yn ymwybodol bod Practisiau dan bwysau cynyddol i ddarparu gwasanaethau wrth helpu gyda'r broses barhaus o gyflwyno'r brechiad.

Os oes gennych unrhyw sesiynau meddygon teulu lle mae angen i chi ymgysylltu â meddyg teulu Locwm, cofrestrwch a phostiwch y sifft ar [Locwm Hub Wales](#) (GP Wales).


Mae Locum Hub Wales yn cynnig cyfle i hysbysebu eich sifftiau Locwm sydd ar gael i gronfa fawr o feddygon teulu Locwm ledled Cymru. Postiwch eich sifftiau cyn gynted â phosibl ar gyfer cyfnod y Gwyliau. Mae rhai awgrymiadau da ar sut i lenwi eich sifftiau Locwm yn llwyddiannus ar gael ar dudalennau cymorth GP Wales, dolen [yma](#).



Ffocws ar: Rôl Staff ar gyfer Staff Gweinyddol/Anghlinigol

Yn ystod y broses dilysu data ddiweddaraf, mae'n ymddangos bod nifer uchel o staff Practis mewn rhai ardaloedd yng Nghymru wedi'u nodi fel 'Arall' o dan Rôl Staff. Gwiriwch fod gan eich staff Gweinyddol y Rôl Staff gywir a bod unrhyw Staff Domestig yn cael eu nodi yn y categori 'Ystadau ac Atodol'. Os nad oes Rôl Staff berthnasol i'ch tîm Gweinyddol, defnyddiwch yr opsiwn 'arall' am y tro a chysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost isod i roi gwybod i ni am eu Rôl Staff. I gael rhestr lawn o'r Rolau Staff a'r disgrifyddion, gweler y ddolen [yma](#) i'r Canllaw i Ddefnyddwyr ar gyfer y Modiwl Mewnbynnu Data ar ein gwefan.

Gobeithio y cewch chi gyfnod Nadoligaidd diogel, hapus ac iach!



Tystysgrif Nawdd



Mae Tîm Tystysgrif Nawdd PCGC wedi ymrwymo i gynnig cymorth i Bractisiau meddygon teulu ledled Cymru sy'n dymuno gwneud cais am Drwydded Nawdd Gweithiwr Medrus a fydd yn eu galluogi i gyflogi gweithwyr y mae angen fisa Gweithiwr Medrus arnynt i weithio yn y DU (*yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eraill*). Os ydych yn Bractis meddyg teulu ac os hoffech gael rhagor o wybodaeth am wneud cais am Drwydded Nawdd, cysylltwch â Thîm Tystysgrif Nawdd PCGC ar NWSSP.CertificateofSponsorship@wales.nhs.uk

Syniadau ac awgrymiadau



Yn dilyn lansio rhai diweddariadau i'r system, efallai y cewch anawsterau wrth fewngofnodi neu wrth ddefnyddio'r gwympen opsiynau yn yr ardal Mewnbynnu Data. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw rai o'r data a gofnodwyd yn flaenorol ar gyfer eich Practis.

Os bydd hyn yn digwydd, pwyswch CTRL/SHIFT/R a bydd hyn yn ailosod y system i chi. Ewch i System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu drwy deipio www.nwrs.wales.nhs.uk yn hytrach na defnyddio dolen a arbedwyd yn flaenorol ac yna ail-arbedwch y ddolen newydd i'ch ffefrynau.

Os nad yw hyn yn gweithio, cysylltwch â ni'n uniongyrchol a byddwn yn ymchwilio iddo ar eich rhan.

HO HO HO!

Cofiwch ddilysu data eich Practis ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu ar gyfer Chwarter 4 – mewngofnodwch a gwiriwch fod eich cofnodion staff yn gywir heb unrhyw rvbuddion sv'n weddill.

